**RHEOLWR GWERTHU DIGWYDDIADAU**
**Theatr Clwyd**
Disgrifiad swydd

Yn gyfrifol am: Goruchwylwyr Digwyddiadau (Achlysurol)
Yn atebol i'r: Prif Swyddog Gweithredu

**Pwrpas y Swydd**
Mae'r Rheolwr Gwerthu Digwyddiadau yn gyfrifol am yrru refeniw drwy hyrwyddo a gwerthu mannau digwyddiadau, pecynnau lletygarwch a phartneriaethau corfforaethol. Mae'r rôl hon yn canolbwyntio ar ddatblygu cyfleoedd busnes newydd wrth gynnal perthnasoedd cryf â chleientiaid presennol, gan sicrhau bod y lleoliad yn ddewis blaenllaw ar gyfer cynadleddau, digwyddiadau preifat a phriodasau.

**Cyfrifoldebau allweddol**

Gwerthu a Datblygu'r Busnes
- Nodi a sicrhau cyfleoedd busnes newydd ar draws y sectorau corfforaethol, preifat a chymunedol
- Cyflawni a rhagori ar dargedau gwerthu ar gyfer llogi lleoliadau, digwyddiadau a gwasanaethau cysylltiedig
- Datblygu a gweithredu strategaethau gwerthu i fanteisio i'r eithaf ar feddiannaeth a refeniw
- Llunio cysylltiadau'n rhagweithiol drwy rwydweithio, allgymorth, a digwyddiadau diwydiant

Rheoli Perthynas â Chleientiaid
- Gweithredu fel prif bwynt cyswllt i gleientiaid o ymholiad hyd at gyflwyno digwyddiadau
- Adeiladu a chynnal perthnasoedd hirdymor gyda chleientiaid corfforaethol, asiantaethau a busnesau lleol
- Cyflwyno cynigion a chyflwyniadau wedi'u teilwra i ddarpar gleientiaid

Cymorth i Gydlynu Digwyddiadau
- Cydweithio â thimau profiadol a thechnegol i sicrhau bod digwyddiadau'n cael eu cynnal yn ddi-dor
- Cefnogi cleientiaid i gynllunio eu digwyddiadau, gan sicrhau bod gofynion yn cael eu bodloni o fewn y gyllideb
- Goruchwylio'r broses o drosglwyddo digwyddiadau i dimau cyflenwi gan gynnal boddhad cleientiaid

Tîm Bwyd a Diod
- Gweithio'n agos gyda thîm Bryn Williams yn Theatr Clwyd i sicrhau bod pob digwyddiad yn cael ei redeg yn ddi-dor, gan gysoni disgwyliadau cleientiaid â'r ddarpariaeth weithredol.
- Gweithredu fel y cyswllt allweddol rhwng cleientiaid a'r adran Bwyd a Diod, gan gyfleu gofynion digwyddiadau, anghenion dietegol, a cheisiadau arbennig yn glir ac yn effeithlon.

- Cefnogi cyfleoedd i uwchwerthu drwy hyrwyddo cynigion bwyd a diod, gan gynnwys bwydlenni wedi'u haddasu, pecynnau diodydd a gwelliannau.

Marchnata a Hyrwyddo

- Gweithio gyda'r timau marchnata a datblygu i hyrwyddo mannau a phecynnau digwyddiadau
- Cyfrannu at ymgyrchoedd digidol, llyfrynnau a deunyddiau hyrwyddo
- Cynrychioli Theatr Clwyd mewn sioeau masnach, digwyddiadau rhwydweithio ac arddangosfeydd

Adrodd a Gweinyddu

- Cadw cofnodion cywir o weithgarwch gwerthu, llinellau gwerthu a rhagolygon
- Llunio adroddiadau rheolaidd ar berfformiad gwerthiant
- Rheoli contractau, prisio ac anfonebu yn unol â pholisïau'r cwmni
- Unrhyw ddyletswyddau eraill yn ôl cais y Prif Swyddog Gweithredu

**Manyleb y Person**

**Hanfodol**

- Profiad sylweddol mewn gwerthu digwyddiadau, gwerthu lleoliadau, neu werthu lletygarwch
- Hanes cryf o gyrraedd neu ragori ar dargedau refeniw
- Profiad o reoli a gwerthu mannau i'w llogi ar gyfer digwyddiadau corfforaethol neu breifat.
- Sgiliau cyfathrebu, negodi a chyflwyno rhagorol
- Gallu rheoli nifer o brosiectau a therfynau amser yn effeithiol
- Brwdfrydedd amlwg dros theatr fyw ac adloniant, a dros ddarparu gwasanaeth rhagorol.
- Canolbwyntio ar y cwsmer gyda dull rhagweithiol sy'n cael ei yrru gan ganlyniadau

**Dymunol**

- Gwybodaeth am fethodolegau rheoli prosiectau.
- Profiad o ddarparu hyfforddiant a mentora i aelodau'r tîm.
- Gallu ysgrifennu a siarad Cymraeg.
- Trwydded yrru lawn.